Cod Ymddygiad CBDC
Rhieni, gwarcheidwaid a gwylwyr

Ydych chi ar yr ochr iawn?

Mae (enw'r clwb) yn cefnogi ymgyrch 'Tu ôl y Llinell, Tu ôl y Tîm' Cymdeithas Bêl-droed Cymru (CBDC) yn llawn ac yn cydnabod bod gan hyfforddwyr a gwirfoddolwyr pêl-droed gyfle gwych i fod yn ddylanwad cadarnhaol ar bobl ifanc sy'n cymryd rhan yn y gêm.

Mae bob un ohonom ni'n gyfrifol am sicrhau bod pawb sy'n ymwneud â phêl-droed yn mwynhau profiad hwyliog, diogel a chadarnhaol.

A fyddech cystal â dangos eich cefnogaeth dros fesurau Diogelu CBDC drwy lofnodi'r datganiad isod. Drwy lofnodi'r Cod Ymddygiad hwn, rydych chi'n dangos eich bod yn deall yr amodau canlynol, a gallai torri'r rhain arwain at gamau disgyblu.

Mae disgwyl i rieni, gwarcheidwaid a'r rheiny sy'n gwylio gemau:

- Ymddwyn yn rhagorol ar bob adeg, drwy barchu a gwerthfawrogi swyddogion gemau, gwrthwynebwyr (chwaraewyr, rheolwyr a hyfforddwyr) a'r dorf.
- Dod â'u plant i sesiynau hyfforddi, gemau a digwyddiadau clwb, a'u casglu wedi hynny, yn brydlon.
- Cefnogi ac ysgogi pob chwaraewr, gan gynnwys y gwrthwynebwyr, ac annog eich plentyn i wneud yr un peth.
- Annog eich plentyn i gydymffurfio â chyfreithiau'r gêm a'u dysgu bod gwneud eu gorau glas yn ddigon.
- Peidio byth â beirniadu, gwawdio neu godi cywilydd ar eich plentyn yn gyhoeddus.
- Sicrhau bod gan eich plentyn git a dillad sy'n addas i'r amgylchedd a'r tywydd.
- Sicrhau eich bod yn darparu dillad chwaraeon a chit diogelu cywir, a bod eich plentyn yn eu gwisgo.
- Rhoi gwybod i Swyddog Diogelu'r clwb a Rheolwr y Tîm am unrhyw bryderon meddygol neu newidiadau mewn cyflyrau meddygol.
- Peidio â rhoi pwysau diangen ar eich plentyn neu eu gwthio i wneud gweithgareddau nad ydynt eisiau ymgymryd â nhw. Ewch ati i ganmol ymdrech a chwarae da.
- Peidio ag ymyrryd â chyfarwyddiadau hyfforddwyr a pheidio â drysu'r chwaraewyr drwy ddweud wrthynt beth i'w wneud.
- Annog pob plentyn i beidio â gwahaniaethu ar sail crefydd, hil, rhyw, dosbarth cymdeithasol neu ddiffyg gallu.
- Derbyn bod ymdrechu i ennill yn bwysicach na'r ennill ei hun.
- Parchu penderfyniadau swyddogion gemau.
- Sicrhau bod eich plentyn wedi darllen a deall eu Cod Ymddygiad.
- Peidio â phostio unrhyw beth amhriodol neu negyddol ar y cyfryngau cymdeithasu a allai ddwyn gwarth ar y gêm.
- Dangos safonau uchel, ymddwyn yn gyfrifol a pheidio byth â defnyddio neu ddioddef geiriau, ymddygiad neu ystumiau ffiaidd, sarhaus, amharchus neu amhriodol.
- Aros y Tu ôl i'r Llinell a pheidio â chamu ar y cae chwarae heb ganiatâd ymlaen llaw gan y dyfarnwr.
- Sicrhau bod pêl-droed yn **hwyl.**

Enw: _____ Llofnod: _____ Dyddiad: _____